



Ysgol Pentreuchaf

101. Polisi Gwrth Fwlio Technolegol

Nod

Sicrhau fod pawb (yn blant, rhieni a staff) yn deall nad oddefir unrhyw ffurf o fwlio yn yr ysgol. Diffinnir bwlio technolegol (cyberbullying) fel gweithred fwriadol ac ymosodol gan unigolyn neu gan griw sy'n defnyddio cyswllt electroneg, yn gyson tros amser, yn erbyn unigolyn nad yw'n medru ei amddiffyn ei hun.

Canllawiau

1. Gall bwlio technolegol gynnwys defnydd **amhriodol** o'r canlynol:

- i) Negeseuon destun
- ii) Llun/clip fideo
- iii) Galwadau ffôn symudol
- iv) E-bostio
- v) Sgwrsio 'chat room'
- vi) Rhannu ffeiliau trwy gyfrwng Bluetooth
- vii) Safweoedd

Disgwyliadau'r Ysgol

1. Fod rhaglenni gwaith a chwricwlwm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn hybu ac yn pwysleisio dilyniant a datblygiad cadarn a diogel mewn meysydd technoleg gyfathrebol.
2. Fod disgyblion yn parchu eraill trwy ddefnyddio'r dechnoleg yn gyfrifol ac i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a chyfrinachedd y systemau o fewn yr ysgol.
3. Fod rhaglen o hyfforddiant ar arferion da yn y maes yn weithredol ar gyfer pob aelod o staff ysgol.
4. Fod dulliau rhwystro mynediad yn weithredol, a bod y rhain yn cael eu diweddarau'n gyson.
5. Fod goruchwyliaeth ddigonol a monitro'r defnydd a wneir o'r rhyngwrdd ac e-bost.
6. Fod polisi penodol ynglŷn â ffonau symudol yn weithredol, ac ar adegau eraill pan mae'r disgyblion dan ofal yr ysgol.
7. Fod rheini yn llawn ymwybodol o bolisi ac arferion da'r ysgol, gan godi eu hymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y maes a hawliau'r ysgol i fonitro'r defnydd a wneir gan eu plant o dechnoleg gyfathrebol.
8. Fod y polisi a'r ddogfennaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn unol â threfn adolygu gytunedig yr ysgol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____



Ysgol Pentreuchaf

Bwlio Technolegol - Côt Ymarfer i Ddisgyblion

1. Os ydych yn cael eich bwlio'n gyfathrebol yn yr ysgol, siaradwch â Mr Thomas neu eich athrawes ddosbarth neu un o'r cymorthyddion.
2. Cofiwch gall achos difrifol o fwlio gael ei gyfeirio at yr heddlu.
3. Cadwch unrhyw neges neu lun bygythiol neu anweddus fel tystiolaeth.
4. Cadwch ddyddiadur ac unrhyw dystiolaeth arall os ydych yn cael eich bwlio.
5. Newidiwch rif eich ffôn symudol, a'i roi i ffrindiau agos yn unig.
6. Cysylltwch â'r darparwr gwasanaeth - gall y cwmni eich helpu i ddal y bwli.
7. Ystyriwch ddefnyddio dulliau rhwystro (blocio) e.e. meddalwedd i rwystro e-byst maleisus, neu hidlen (filter).
8. Peidiwch ag ymateb i negeseuon, gall hyn wneud pethau'n waeth. Mae ateb neges yn ei gwneud hi'n haws i'r bwli, a bydd yn diflasu'n gynt o lawer os byddwch chi'n anwybyddu'r neges.
9. Byddwch yn fanesol ac yn gwrtais bob amser wrth gyfathrebu'n electroneg.
10. Cyfeiriwch unrhyw fynediad damweiniol i safweoedd anaddas i berson cymwys.
11. Newidiwch eich ffugenw a'ch cyfrinair yn aml os yw hynny'n ymarferol bosib - mae hyn yn gwneud pethau'n anoddach i'r bwli.
12. Peidiwch â rhoi manylion personol ar lein. Mewn stafelloedd sgwrsio, gall datgelu eich cyfeiriad, eich ysgol a.y.y.b., roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i'r bwli.
13. Peidiwch ag anfon manylion/negeseuon anweddus ymlaen i berson arall. Os ydi'r manylion yn cyfeirio atoch chi, cadwch y manylion, fel arall dileu yw'r gorau, a pheidio ag ymateb.
14. Peidiwch, ar unrhyw gyfrif, â datgelu cyfrinair na chyfrin-rif o'ch ffôn symudol neu o'ch cyfrif e-bost. Cofiwch hefyd fod angen negeseuon anweddus a bygythiol yn anghyfreithlon.